Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU
(01492) 574000
Cyf/Ref: CCBC-021006/HL

**Gorchymyn (Cydgrynhoi) Bwrdeistref Sirol Conwy (Atal A Chyfyngu Aros A Mannau Parcio Oddi Ar y Stryd) 2006 Gorchymyn (Diwygiad Rhif 1) 2017 – Promenâd Bae Colwyn**

Y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn bwriadu gwneud Gorchymyn dan Adrannau 1(1), 2(1) i (3) a Rhan IV Atodlen 9, Deddf Rheoli Trafnidiaeth Ffyrdd 1984, i ddiwygio Gorchymyn Cydgrynhoi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) 2006 i'r graddau y mae'n ymwneud ag Atodlenni 2, 4 a 6. Effaith y Gorchymyn yw cyflwyno Parth Parcio wedi'i Reoli ar hyd Promenâd Bae Colwyn, fel y manylir yn yr Atodlenni isod.

Gellir archwilio copi o'r Gorchymyn bwriedig ynghyd â map yn dangos y darnau ffordd y mae'r Gorchymyn bwriedig yn berthnasol iddynt, a datganiad o resymau'r Cyngor dros fwriadu gwneud y Gorchymyn, yn Llyfrgell Bae Colwyn, yn swyddfeydd y Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu, Bodlondeb, Conwy, yn ystod oriau agor/swyddfa arferol ac ar wefan y Cyngor

Dylid anfon unrhyw wrthwynebiadau i'r Gorchymyn bwriedig, ynghyd â'r rhesymau drostynt, ar bapur at y Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU, erbyn 29 Mawrth 2017.

**ATODLEN 2**

(Taliadau ar gyfer Tystysgrif Esgusodi a Thrwyddedau Parcio)

| **Math o Dystysgrif Esgusodi** | **Tâl** |
|---|---|
| Tystysgrif Esgusodi Masnachwyr | £15.00 yr wythnos, fesul tystysgrif esgusodi |

**ATODLEN 4**

| Darn o Ffordd | Safle y gall y cerbyd aros | Dosbarth y cerbyd | Diwrnodau Gweithredu | Oriau codi tâl | Graddfa'r taliadau | Cyfnod aros hiraf |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Promenâd Bae Colwyn;** o bwynt 120 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â Rotary Way am bellter o 900 metr tua'r gorllewin. | Yn gyfan gwbl o fewn bae parcio | Ceir a faniau ysgafn a charafannau modur (fel y diffinnir yn Erthygl 2)<br><br>Ceir a faniau ysgafn a (fel y diffinnir yn Erthygl 2)<br><br>Carafannau modur (fel y diffinnir yn Erthygl 2) | Dydd Llun i ddydd Sul yn gynhwysol | 10 a.m. tan 4 p.m.<br><br>4 p.m. tan 10 a.m.<br><br>4 p.m. tan 11 p.m. ac 8 a.m. tan 10 a.m. | Hyd at 1 awr £0.50<br>Hyd at 2 awr £1.00<br>Hyd at 4 awr £2.50<br>Dros 4 awr £3.50<br><br>Dim tâl<br><br>Dim tâl | Dim cyfyngiad |

**ATODLEN 6**

| Darn o Ffordd | Safle y gall y cerbyd aros | Dosbarth y cerbyd | Diwrnodau Gweithredu | Oriau codi tâl | Graddfa'r taliadau | Cyfnod aros hiraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Promenâd Bae Colwyn**; o bwynt 120 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â Rotary Way am bellter o 900 metr tua'r gorllewin. | Yn gyfan gwbl o fewn bae parcio | Deiliaid bathodyn anabl yn unig | Dydd Llun i ddydd Sul yn gynhwysol | 24 awr | Dim tâl | Dim cyfyngiad |

Dyddiedig / Dated: 1 Mawrth / March 2017

**Delyth E Jones**
**Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu**
**Head of Law and Governance**